



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru - Y seiliau ar gyfer y dyfodol

Crynodeb Ymchwil

CCLL 07/07 CY

Cyflwyniad

I gydnabod bod proffil demograffig Cymru yn newid gan greu cymdeithas sy'n heneiddio, nod yr astudiaeth hwn yw helpu i sicrhau bod polisi'r dyfodol yn cael y cyfle gorau i lywio darpariaeth llety a gofal meddygol a gwasanaethau cymorth cysylltiedig mewn modd sydd yn cwrdd â'u hanghenion sy'n gysylltiedig gydag oedran. Mae'n dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r strategaeth gyntaf erioed ar gyfer pobl hŷn ynghyd ag argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y dylid gwneud astudiaeth sylfaenol ar dai arbenigol ar gyfer pobl hŷn.

Er mwyn sefydlu'r mathau mwyaf addas o lety i gwrdd ag anghenion sy'n gysylltiedig â henaint ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, nod yr ymchwil oedd:

- asesu lefelau, lleoliadau a chyflwr presennol holl ddarpariaeth llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ar gyfer pob sector;
- asesu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau meddygol, gofal a chefnogi ar gyfer pobl hŷn mewn tai anghenion cyffredinol;
- gwerthuso a yw llety presennol ar gyfer pobl hŷn yn cwrdd a'u hanghenion sy'n gysylltiedig ag oedran ac asesu'r newidiadau mewn galw am wahanol fathau o ddarpariaeth;
- darparu arfarniad o sut y bydd gofynion llety, meddygol, gofal a chefnogaeth yn debygol o newid dros y degawdau i ddod; a
- darparu arfarniad o sut y dylai'r sbectrwm o lety a gwasanaethau meddygol, gofal a chymorth cysylltiedig presennol ymateb.

Fe wnaeth yr ymgynghorwyr hyn trwy gynnal:

- adolygiad o ddiffiniadau o lety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru;
- arolwg manwl o ddarparwyr llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a anfonwyd i 1,782 o gyfeiriadau dilys ac a dderbyniodd ymateb ar raddfa o 31%;
- 19 astudiaeth achos trwyadl o ymweld gyda chynlluniau neu gartrefi yn cynrychioli pob mathau o lety ar gyfer pobl hŷn;
- dadansoddiad o ddata demograffig i ragweld yr angen am lety, gofal a chymorth yn y dyfodol;
- adolygiad o lenyddiaeth ar ddatblygiad hanesyddol llety ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru ac ar ddyheadau tai pobl hŷn; a
- 12 cyfweiliad gyda rhan ddeiliaid allweddol i ychwanegu at yr argymhellion terfynol.

Yn hanesyddol, tai gwarchod ar gyfer rhent oedd yn dominyddu darpariaeth tai ar gyfer pobl hŷn o'r 1950au hwyr i ganol y 1980au. Yn y 1980au, daeth rhai cynlluniau yn fwy anodd i'w gosod, fe gynyddodd cyfartaledd oedran y tenantiaid, gan arwain at angen am fwy o gymorth i'r cyfran hwn o'r boblogaeth, a chafwyd amrywiadau cynyddol yn y gwasanaethau a gynigiwyd.

Gyda chynlluniau gwarchod confensiynol gwelwyd cryn ymdrech i foderneiddio rôl y warden. Ochr yn ochr â'r newid hwn, fe ymddangosodd cynlluniau gofal ychwanegol, gyda chynnydd pendant mewn ceisiadau am arian yn y blynyddoedd diweddar. Gwelwyd cynnydd yn narpariaeth gwasanaethau gofal a thrwsio i gefnogi perchen-feddianwyr hân.

Fodd bynnag, digwyddodd y datblygiadau hyn heb ddiffiniad eglur o bwrpas ar gyfer yr amrywiol fathau o ddarpariaeth ac heb gyfeiriad strategol digonol ar gyfer yr holl system fydd yn croesawu gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny mewn tai cyffredinol, trwy'r gwahanol fathau o lety diogel, i ofal cartrefi preswyl a nyrsio.

Mae'r adroddiad cyfuno hwn yn dwyn y dystiolaeth allweddol ynghyd o bob cainc o'r prosiect ac yn dod i gasgliadau a chynnig argymhellion.

Casgliadau allweddol

Darpariaeth llety arbenigol ar gyfer pobl hân ar hyn o bryd

Mae llety arbenigol ar gyfer pobl hân yn amrywiol ond caiff ei ddominyddu gan dai gwarchod confensiynol, oedd y prif lety i bron hanner y bobl a ymatebodd i'r arolwg. Adroddwyd yn gyffredinol bod y galw am bob ffurf o dai gwarchod yn gryf ond bod rhai cynlluniau unigol yn anodd i'w gosod. Roedd y galw yn codi o ddiffyg llety amgen. Cynigiwyd tai gwarchod fel yr unig ddewis i bobl dros 55 oed oedd yn chwilio am lety. Yn ogystal, nodwedd cryfaf nifer o'r cynlluniau oedd lleoliad. Byddai lleoliad da yn cynnal cynllun nad oedd gyda chymaint i'w gynnig o ran adeilad, adnoddau neu faint fflat.

Dengys y dystiolaeth o bob math o ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd:

- Roedd bron tair gwaith cymaint o fflatiau mewn cynlluniau ac oedd yna o fyngalos, ond roedd byngalos yn fwy cyffredin mewn tai dynodedig nac ar draws yr holl categorïau o lety.
- Unedau un llofft oedd y math mwyaf cyffredin o lety, yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o stoc. Fodd bynnag, roedd, 12% o unedau ar draws Cymru yn fflatiau un ystafell, sydd yn aml y lleiaf poblogaidd ac felly'n anoddach i'w gosod.
- Roedd gan bron i hanner yr unedau fynediad safonol, ac roedd dros treian ohonynt yn cwrdd â safonau Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru. Cartrefi nyrsio a gofal preswyl oedd â'r cyfran uchaf o unedau yn cwrdd â'r safonau uwch hyn. Roedd hygrychedd ar ei waethaf mewn tai gwarchod confensiynol a thai dynodedig.
- Roedd gan bron i un rhan o bump o unedau arbenigol system teleofal.
- Yn gyffredinol, fe gynyddodd cyfanswm oriau staff yn unol â lefelau uwch o ofal. Tai dynodedig oedd yn dangos y cyfartaledd oriau isaf i bob preswlydd (1 awr yr wythnos) a chartrefi nyrsio oedd yn dangos y cyfartaledd uchaf (34 awr yr wythnos).

Galw am lety ar hyn o bryd ac i'r dyfodol

Roedd y boblogaeth breswyl yn y bandiau oedran hynaf mewn llety arbenigol yn gyffredinol yn fenywaidd ac yn fwy tebygol o brofi problemau symudedd. Yn gyffredinol, roedd gan y boblogaeth y nodweddion canlynol:

- Yn gyffredinol, roedd y poblogaethau hynaf i'w gweld mewn lleoliadau gyda lefelau uwch o ofal. Roedd dosbarthiad oedran poblogaethau yn fwy cyfartal mewn tai dynodedig a thai gwarchod confensiynol.
- Roedd 62% o bob aelwyd yn fenywod sengl, 25% yn ddynion sengl a 12% yn gyplau.
- Roedd gan 36% o'r holl breswylwyr broblemau symudedd, a dyma oedd y nam mwyaf cyffredin. Afiechyd meddwl a dementia oedd y ddau nam lleiaf cyffredin ar draws pawb a ymatebodd. Fodd bynnag, fe adroddwyd bod dementia yn effeithio ar bron i 1,500 o breswylwyr, dros 10%...

Dengys amcanestyniadau ar gyfer pobl hŷn:

- Amcanir y bydd nifer y bobl dros 65 yng Nghymru yn codi o 518,000 yn 2004 i 885,000 yn 2044, cynnydd o 71%. Fodd bynnag, bydd nifer y bobl 85 neu drosodd yn codi o 217% i 190,000.
- Erbyn 2026, bydd aelwydydd gyda phenteulu hŷn yn cyfri am drydedd rhan o holl aelwydydd yng Nghymru.
- Bydd cyfran y tenantiaid yn y sector rhentu cymdeithasol sy'n 65 neu drosodd yn gostwng o 26% i 21% o 2001 i 2026, wrth i'r cohort presennol o berchen feddianwyr dyfu'n hŷn a pharhau i fyw mewn tai preifat.
- Er gwaethaf gwelliannau iechyd disgwylidig, pobl 85 a throsodd fydd yn parhau i fod angen y mwyaf o ofal ychwanegol a chefnogaeth yn y dyfodol.

Mae dyheadau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer pobl hŷn yn cynnwys: mwy o le; gwell dewis o ddeiliadaeth; lefelau uwch o breifatrwydd; diogelwch rhag troseddau ac amhariad; cynnal a chadw hawdd neu fforddiadwy; gallu defnyddio trafnidiaeth breifat; gallu defnyddio gwasanaethau cymunedol; a chyfle i gymryd rhan yn llunio adnoddau a gwasanaethau sy'n effeithio ar eu hansawdd bywyd.

Goblygiadau ar gyfer darpariaeth llety yn y dyfodol

Golyga'r cynnydd yn y nifer o bobl hŷn a'r newid yn eu dyheadau y bydd yn rhaid addasu'r lefel presennol o lety arbenigol a'r gwasanaethau a ddarparir er mwyn cwrdd â'r galw gan genedlaethau o bobl hŷn yn y dyfodol.

Golyga'r cynnydd yn nisgwylid oes dynion bod y galw am ddarpariaeth i gyplau yn debygol o godi, yn yr un modd bydd y galw am ffurfiau gwell o dai gwarchod yn codi wrth i'r oedran dyrannu gynyddu. Bydd dichonoldeb gofal ychwanegol yn y dyfodol yn dibynnu ar ei allu i gwrdd â dyheadau newidiol pobl hŷn gan gynnwys dyheadau ffordd o fyw.

Mae'r lefel isel o dementia mewn mathau arbennig o'r cynlluniau a arolygwyd, yn arbennig gofal ychwanegol mewn tai gwarchod, yn awgrymu galw nas diwallwyd ar gyfer y cyflwr ymysg y mathau hyn o lety arbenigol.

Er i'r prosiect hwn ganolbwyntio ar lety arbenigol ar gyfer pobl hŷn, mae'r mwyafrif o bobl hŷn yn byw yn eu cartrefi eu hunain. Fe amcanir y bydd lefel perchentyaeth ymysg pobl hŷn yn cynyddu yn y dyfodol, gyda galw cynyddol tebygol am berchnogaeth lwyr neu rannol fel ffurf o ddeiliadaeth mewn llety arbenigol. I berchnogion eraill, bydd y problemau yn fwy arwyddocaol i'r rhai hynny sydd yn byw mewn eiddo sy'n isel eu gwerth neu'n hŷn, neu'r rhai hynny sydd ar yr incwm isaf, mewn iechyd gwael ac yn y grwpiau oedran hynaf.

Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn gorffen gyda 10 o argymhellion allweddol ar gyfer gwella cynllunio, comisiynu a darparu llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn. Yn gyffredinol, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod llety arbenigol ar gyfer pobl hŷn yn cael ei gynllunio a'i gomisiynu yn ôl anghenion a dyheadau'r bobl hŷn. Anogir y defnydd o fatrics diffiniol o fathau arbenigol o lety ar gyfer pobl hŷn, ynghyd â thargedau ar gyfer darparu amryw o gategoriâu o lety.

Mae argymhellion eraill yn ystyried:

- rôl a rheolaeth tai dynodedig;
- gosod tai gwarchod i grwpiau anaddas;
- arfarniad dewis ar gyfer holl dai gwarchod cymdeithasol sy'n cael eu rhentu;
- rôl y modelau dibyniaeth uchel o ofal ychwanegol;
- rôl staff cynllun penodol o ran datblygiad cymuned;
- sut y gall datblygwyr preifat rannu yn y broses o gwrdd ag anghenion perchen feddianwyr hŷn; a
- buddsoddiad yn eu tai gan berchen feddianwyr hŷn a'r rhai hynny sy'n dynesu at henaint.